


Brechfa



Pam Cerdded?

Mae'r daith yn dechrau ym Mrechfa, sef pentref bach dymunol yng nghanol Sir Gaerfyrddin. Dyma ichi ardal wledig dawel o'r sir ac iddi ddyffrynnoedd serth a choediog. Dilyna'r daith lonydd tawel cefn gwlad a hen gilffyrdd i goedwig dderi hynafol a dolydd sy'n gyforiog o flodau. Mae rhan hyfryd o'r daith yn dilyn afon Cothi, un o afonydd harddaf De Cymru.



Pa mor Hir?

Mae'r daith gylchol hir ar y map tua 6.5 cilometr o hyd (4 milltir) gan ddringo 230 metr. (Caniatewch dair awr a hanner).

Mae'r daith gylchol fer tua 2.6 cilometr (1.5 milltir) dros dir cymharol wastad (caniatewch awr a hanner).



Pa mor Anodd?

Mae rhai darnau serth ar y llwybr hir ac mae'r ddwy daith yn dilyn traciau garw ac yn croesi caeau a allai fod yn wlyb dan droed hyd yn oed yn yr haf. **Sylwer:** Ym Mrechfa mae'r llwybr yn croesi rhyd, sydd yn aml yn rhy ddwfn i gerddwyr. Mae yna lwybr caniataol arall sy'n defnyddio'r trac wrth ochr y capel, a ddangosir ar y map.



Man Cychwyn - Canol y pentref.



Maes Parcio / Ardal Bicnic



Trafnidiaeth Gyhoeddus - ✓



Lluniaeth - ✓

1 Roedd plwyf Brechfa yn faenor mynachaid ganoloesol a oedd yn perthyn i Abaty Tallylchau. Cyfeirir ato fel 'Bracma' mewn dogfennau o'r unfed ganrif ar ddeg/deuddegfed ganrif yn 'Llyfr Llandaf'.

2 Daw enw tafarn y 'Forest Arms' o'r hen blasty cyfagos o'r enw 'Fforest'.

Mannau o ddiddordeb



3 Adeiladwyd Capel y Methodistiaid Calfinaidd yn 1790 ar ffurf syml a dirodres. Daeth Gweinidog Soar, Cil-y-cwm, i bregethu yma gyntaf a sefydlu'r achos tua 1770.

4 Mae'r cloddiau uchel wedi'u gorchuddio â Blodau'r Gwynt a Llygaid Ebrill yn y Gwanwyn, a Thafod yr Hydd Rhedyn a Chwerwlys yr Eithin yn hwyrach yn y flwyddyn.

5 Adeiladwyd Plasty Fforest, ar ochr arall y dyffryn (gogleddol), yn 1724 gan y teulu Rudd o Aberglasne. Mae'r grisiau Jacobaidd a'r ffenestri Tuduraidd cynharach yno hyd heddiw. O'r fan hon mae modd gweld ei lôn sydd â choed ar y naill ochr a'r llall iddi.

6 Adfail yr Hafod. Yn 1844 roedd yr Hafod yn cynnwys safle'r tŷ ac ychydig o gaeau'n unig. Y ffordd orau o ddisgrifio'r tŷ ei hun yw fel 'tŷ hir' ac mae'r enw Hafod yn awgrymu tarddiad llawer hŷn. Mae'n golygu porfeydd yr haf a gallai fynd yn ôl i gyfnod pan oedd Banc-y-Daren ei hun yn ucheldir agored - tir pori garw ar gyfer defaid a gwartheg. Mae'n bosibl mai'r Hafod oedd cartref bugail neu fugail gwartheg yn ystod yr haf.

7 Cilffordd, sy'n rhoi syniad o'r hyn yr arferai llawer o ffyrdd fod cyn arferion arwynebu modern. Ar yr argraffiad cyntaf o Fap Arolwg Ordnans 1831, dangosir hon fel ffordd drwodd.

8 Mae'r daith gerdded wrth ymyl afon Cothi yn mynd drwy goetir brodorol o goed Derw, Ynn a Chyll. Mae hwn yn lle braf i ymlacio a gweld adar coetir ac adar afonol fel Dringwyr Bach, Cnocellod y Coed, Hwyadwyddau a Hwyaid Gwylltion.

9 Ardal o laswelltir gwlyb gyda nifer o blanhigion y gors fel Erwain, Llafn y Bladur, Tegeirian Brych a Llysiau'r Angel.

10 Mae ardal bicnic a maes parcio Ffynnon Byrgwm, sydd 2.5 cilometr (1.5 milltir) yn unig i'r dwyrain o Frechfa, yn fynyddfa i ardal o goetir eang sy'n agored i'r cyhoedd ar gyfer cerdded, marchogaeth a beicio mynydd. Mae'r coetir yn gyfuniad diddorol o goed conwydd a choed brodorol pren caled. Cadwch lygad am Wiwerod Coch a llawer o wahanol adar gan gynnwys y Dryw Eurben, Telor y Cnau, y Barcud Coch a'r Croesbig.

#DymaSirGar

#ThisisCarmarthenshire

darganfodsirgar.com • discovercarmarthenshire.com